
# PAS 402:2013

# Rheoli adnoddau gwastraff – Manyleb adrodd am berfformiad



ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU

CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

bsi.

Licensed copy: Tech St

Licensed copy: Tech Street, ISO Exchange - Michigan, Version correct as of 14/01/2015, (c) The British Standards Institution 2015

## Gwybodaeth am gyhoeddi a hawlfraint

Mae'r hysbysiad hawlfraint BSI a arddangosir yn y ddogfen hon yn dangos pryd cyflwynwyd y ddogfen ddiwethaf.

© Y British Standards Institution (BSI) 2013. Cyhoeddwyd gan British Standards Limited 2013.

*Dim copïo heb ganiatâd BSI ac eithrio fel y caniateir o dan gyfraith hawlfraint*

**ISBN** 978 0 580 83996 2

**ICS** 03.100.01; 13.030.01

**Hanes cyhoeddi**

Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf ym mis Gorffennaf 2009
Ail gyhoeddiad (yr un cyfredol) Mai 2013

Licensed copy: Tech Street, ISO Exchange - Michigan, Version correct as of 14/01/2015, (c) The British Standards Institution 2015

# Cynnwys

Rhagair ..... v

Datganiad gan y gweinidog ..... vii

Cyflwyniad ..... viii

1 Cwmpas ..... 1

2 Termau a diffiniadau ..... 1

3 Cyffredinol ..... 5

4 Cwmpas y gweithrediadau ..... 5

5 Y berthynas â chleientiaid ..... 6

6 Effeithiau a risgiau ..... 6

7 Rheolaeth weithredol ..... 7

8 Cymhwysedd ..... 7

9 Gofynion cyfreithiol ac eraill ..... 7

10 Camau cywiro, atal a gwella ..... 8

11 Adolygu perfformiad ..... 8

Atodiadau
Atodiad A (er gwybodaeth) Cyfatebiaeth â systemau rheoli presennol ..... 9
Atodiad B (er gwybodaeth) Gweithgareddau prosesu gwastraff ..... 13
Atodiad C (normadol) Dull o bennu cyfraddau dargyfeirio o dirlenwi ac adennill deunyddiau ..... 15

Llyfryddiaeth ..... 26

© Y British Standards Institution 2013

Licensed copy: Tech Street, ISO Exchange - Michigan, Version correct as of 14/01/2015, (c) The British Standards Institution 2015

## Rhestr o'r Ffigurau

Ffigur B.1 – Gweithgareddau prosesu gwastraff nodweddiadol ............ 14
Ffigur C.1 - Mesuriadau ar gyfer pennu cyfraddau dargyfeirio o dirlenwi ac adennill deunyddiau ............ 16
Ffigur C.2 - Ffurflen archwiliad gweledol ............ 23

## Rhestr o'r Tablau

Tabl A.1 – Cyfatebiaeth rhwng PAS 402:2013 a BS EN ISO 9001:2008 ............ 9
Tabl A.2 – Cyfatebiaeth rhwng PAS 402:2013 a BS EN ISO 14001:2004 ............ 11
Tabl A.3 – Cyfatebiaeth rhwng PAS 402:2013 a BS OHSAS 18001:2007 ............ 11
Tabl A.4 – Cyfatebiaeth rhwng PAS 402:2013 a PAS 99:2012 ............ 12
Tabl C.1 – Mesuriadau ar gyfer pennu cyfraddau dargyfeirio o dirlenwi ac adennill deunyddiau ............ 15
Tabl C.2 – Ffactorau dwysedd yn ôl Côd Catalog Gwastraff Ewrop (EWC) ............ 18
Tabl C.3 – Tabl trawsnewid ar gyfer meintiau nodweddiadol cynwysyddion gwastraff ............ 24



© Y British Standards Institution 2013

Licensed copy: Tech Street, ISO Exchange - Michigan, Version correct as of 14/01/2015, (c) The British Standards Institution 2015

# Rhagair

Noddwyd y Fanyleb hon, sydd ar gael i'r Cyhoedd (PAS) gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW). Hwyluswyd ei datblygiad gan British Standards Limited ac fe'i cyhoeddwyd dan drwydded gan y British Standards Institution (BSI). Daeth i rym ar 31 Mai 2013.

Rhoddir cydnabyddiaeth i Paul Jennings ac Emma Thomas, awduron y PAS, a reolodd ei datblygiad ar gyfer CEW. Rhoddir cydnabyddiaeth hefyd i'r cynrychiolwyr canlynol a fu'n rhan o'i datblygiad fel aelodau o'r grŵp llywio:

- Atlantic Recycling, Stuart Hanford
- ASH Group, Neil Hassall
- Building Research Establishment Wales, Colin King
- Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, Paul Jennings ac Emma Thomas
- Grŵp Derwen, Debbie Robinson
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Huw Davies
- Cymdeithas Gwasanaethau'r Amgylchedd, Sam Corp
- Green Triangle Management Systems, Tony Crotty
- Systemau Rheoli Tarian, Dave Humphreys
- Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff, Rebecca Colley-Jones
- Grrŵp Contractwyr y Deyrnas Unedig, Richard James
- Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig, Janet Gascoigne
- Veolia, Ray Parmenter a Christian Spencer
- Llywodraeth Cymru, Elizabeth Franks
- Williams a Williams Cyf, Meurig Jones

Carai CEW hefyd gydnabod cyfraniad amhrisiadwy y sefydliadau hynny a roddodd o'u hamser i adolygu drafftiau gwaith PAS 402 ac a gyflwynodd sylwadau i'w hystyried. Bu'r cyfraniadau o gymorth i wella'r fanyleb, ac fe'u gwerthfawrogwyd yn fawr.

CEW yw'r corff ymbarél ar gyfer y diwydiant adeiladu yng Nghymru, sy'n golygu mai CEW yw'r sefydliad busnes ar gyfer unrhyw un sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, cylch gorchwyl CEW yw gwella'r broses adeiladu yng Nghymru a sicrhau bod egwyddorion ailystyried adeiladu, fel y'u hamlinellwyd yn Adroddiad Egan 1998, *Rethinking Construction* [1], ac Adroddiad Latham 1994, *Constructing the Team* [2] yn dod yn arfer prif ffrwd yn y diwydiant.

Mae British Standards Institution yn cadw perchnogaeth a hawlfraint ar y PAS. Mae British Standards Limited, sef cyhoeddwr y PAS, yn cadw'r hawl i dynnu'r yn ôl neu ei newid o dderbyn cyngor awdurdodol mai priodol fyddai gwneud hynny. Bydd y PAS yn cael ei hadolygu bob dwy flynedd o leiaf, a bydd unrhyw newidiadau yn sgîl yr adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar ffurf PAS ddiwygiedig, ac yn derbyn cyhoeddusrwydd yn *Update Standards*.

Nid yw'r PAS i gael ei hystyried fel Safon Brydeinig. Bydd yn cael ei thynnu'n ôl adeg cyhoeddi'r cynnwys mewn neu ar ffurf Safon Brydeinig.

Mae proses y PAS yn caniatáu datblygu manyleb yn gyflym er mwyn ymateb ar unwaith i angen yn y diwydiant. Gellir ystyried datblygu PAS ymhellach i greu Safon Brydeinig, neu gall fod yn rhan o fewnbwn y Deyrnas Unedig i ddatblygiad Safon Ewropeaidd neu Ryngwladol.

## Gwybodaeth am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn ddiwygiad llawn o PAS 402:2009 ac yn cyflwyno'r prif newidiadau sy'n dilyn:

- cyfeiriadau wedi'u diweddaru at ddeddfwriaeth, terminoleg gyfreithiol, manylebau technegol a dogfennau;
- eglurhad testunol o fewn y nodiadau gwybodaeth, Cymal **5** (Y berthynas â chleientiaid), Cymal **8** (Cymhwysedd), Cymal **10** (Camau cywiro, atal a gwella) ac **11.3**;
- Cymal **7** newydd (Rheolaeth weithredol), sy'n cyfuno Cymal **7** (Rheolaeth weithredol) a Cymal **8** (Rheoli adnoddau trefniadol) o PAS 402: 2009;
- dileu'r gofyniad cyntaf yng Cymal **11** (Adolygu perfformiad) [**12.1**a) yn PAS 402: 2009], a newid geiriad **11.3** (**12.3** yn flaenorol).

© Y British Standards Institution 2013

Licensed copy: Tech Street, ISO Exchange - Michigan, Version correct as of 14/01/2015, (c) The British Standards Institution 2015

## Disodli

Mae'r PAS yma yn disodli PAS 402:2009, a dynnir yn ôl adeg cyhoeddi'r PAS yma.

## Perthynas â chyhoeddiadau eraill

Lluniwyd y PAS yma hefyd i ganiatáu i sefydliadau rheoli adnoddau gwastraff ddefnyddio'u cydymffurfiaeth â chyhoeddiadau cysylltiedig i arddangos perfformiad. Cyhoeddiad cysylltiedig yw un sy'n ymdrin ag un neu fwy o ofynion y fanyleb hon.

Ceir tablau cyfatebiaeth manwl rhwng PAS 402 a safonau systemau rheoli presennol ar gyfer yr amgylchedd (BS EN ISO 14001), ansawdd (BS EN ISO 9001), iechyd a diogelwch (BS OHSAS 18001) ac ar gyfer canfod gofynion cyffredin systemau rheoli yn fframwaith ar gyfer integreiddio (PAS 99) yn Atodiad A.

Ceir canllawiau manwl ar sut mae cwblhau adroddiad rheoli adnoddau gwastraff sy'n cydymffurfio â PAS 402 mewn dogfen ategol a gyhoeddwyd gan CEW, *Rheoli Adnoddau Gwastraff – Canllawiau ar gyfer Adrodd am Berfformiad yn erbyn PAS 402* [3]. Ailgyflwynir y ddogfen hon ochr yn ochr â PAS 402.

**Archwilio.** Cynghorir defnyddwyr y PAS yma i ystyried dymunoldeb archwiliad trydydd parti o'u cydymffurfiaeth â'r PAS. Disgrifir trefniadau ardystio cydymffurfiaeth priodol yn BS EN ISO/IEC 17020. Gall defnyddwyr sy'n chwilio am gymorth i gael hyd i gyrff neu gynlluniau priodol ar gyfer asesu cydymffurfiaeth ofyn i BSI anfon eu hymholiadau ymlaen at y corff perthnasol.

## Defnyddio'r ddogfen hon

Rhagdybiwyd wrth baratoi'r PAS y bydd cyflawni ei darpariaethau yn cael ei ymddiried i bobl sydd â chymwysterau a phrofiad priodol, ac fe'i cynhyrchwyd at eu defnydd hwy.

Mae BSI wedi cymryd pob cam rhesymol I sicrhau cywirdeb y cyfieithiad hwn, ond mae'n flin ganddynt na ellir derbyn cyfrifoldeb am unrhyw wall, esgeulustra neu anghywirdeb. Os cyfyd amheuaeth neu anghydfod, dim ond testun yr iaith wreiddiol sy'n ddilys.

## Confensiynau cyflwyno

Cyflwynir darpariaethau'r safon hon mewn teip rhufeinig (h.y. ar i fyny). Mynegir ei gofynion mewn brawddegau lle defnyddir y brif ferf ategol "rhaid".

*Cyflwynir sylwadau, esboniadau a deunydd cyffredinol er gwybodaeth mewn teip italig llai o faint, ac nid yw'r elfennau hynny'n rhai normadol. Defnyddir y gair "dylai" i fynegi argymhellion, "gellid" i gyfleu rhywbeth y gellid ei ganiatáu, a "gellir" i fynegi posibilrwydd, e.e. canlyniad i weithred neu ddigwyddiad.*

## Ystyriaethau contractiol a chyfreithiol

Nid yw'r cyhoeddiad hwn yn honni cynnwys holl ddarpariaethau angenrheidiol contract. Y defnyddwyr sy'n gyfrifol am ei gymhwyso'n gywir.

**Ni all cydymffurfio â PAS sicrhau imiwnedd rhag rhwymedigaethau cyfreithiol.**





© Y British Standards Institution 2013

Licensed copy: Tech Street, ISO Exchange - Michigan, Version correct as of 14/01/2015, (c) The British Standards Institution 2015

# Datganiad gan y gweinidog

Mae PAS 402 yn rhan bwysig o'r ymgyrch i sicrhau cymdeithas ddi-wastraff. Mae'r diwygiad hwn wedi adeiladu ar y cyhoeddiad cyntaf, a bu'n gyfle i gryfhau'r egwyddorion allweddol a chodi safonau perfformiad yng ngofynion y fanyleb.

Mae adolygu'r fanyleb wedi galluogi diwydiant a'r llywodraeth i gydweithio, gan ddatblygu'r fanyleb er mwyn gyrru newid i gyfeiriad cyson. Mae'n darparu manteision gwirioneddol i ddiwydiant, ac ar yr un pryd yn helpu'r llywodraeth i gyflawni ei thargedau. Gall defnyddio PAS 402 ychwanegu at hyder cwsmeriaid, gwella effeithlonrwydd busnes, a darparu data wedi'i ddilysu ar gyfer cleientiaid a'r llywodraeth.

Mae dileu gwastraff yn hanfodol os ydym i sicrhau dyfodol cynaliadwy. Bydd cyflawni hyn yn galw am newid sylweddol a gwaelodol, ac mae ailystyried rheoli gwastraff yn elfen hanfodol o hynny. Mae angen i ni ymdrechu i ddatblygu'r systemau a'r seilwaith sy'n galluogi cylchoedd oes adnoddau, fel bod deunyddiau a waredwyd yn gallu dod yn adnodd newydd.

Mae'r sector rheoli gwastraff yn sector pwysig i'r economi. Mae ganddo'r potensial i fod yn asiant pwerus dros newid, yn arbennig yng nghyswllt datblygu cynaliadwy. Mae i'r sector rôl eithriadol o ddylanwadol o ran trawsnewid ymddygiad y rhai y mae'n gweithio gyda hwy i effeithio ar ffurf yr amgylchedd.

Mae'r ffaith mai yng Nghymru y cychwynnodd y fenter hon o eiddo'r DU yn fy ngwneud yn falch iawn, ac rwy'n cydnabod bod gennym gyfle yn awr i hyrwyddo ei gweithrediad ac arwain yr ymgyrch i reoli gwastraff yn well ar gyfer y DU. Fy ngweledigaeth i yw y bydd y sector hwn yn cael ei gydnabod fel un sydd ymhlith y goreuon yn y byd o ran ei allu i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy sy'n cael ei barchu ar lefel fyd-eang.



Rwyf wrth fy modd yn cael cyfle i nodi cyhoeddi'r fanyleb genedlaethol hon. Diolch i dîm Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru a'r cynrychiolwyr hynny a fu'n rhan o'i datblygiad. Eu hymdrechion hwy sydd wedi gwneud cyhoeddi'r fanyleb hon yn bosib, gan ein helpu i symud tuag at ddull gwirioneddol gynaliadwy o reoli ein gwastraff.



**Alun Davies**
Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd
Llywodraeth Cymru

Licensed copy: Tech Street, ISO Exchange - Michigan, Version correct as of 14/01/2015, (c) The British Standards Institution 2015

# Cyflwyniad

Mae'r diwydiant gwastraff yn esblygu'n barhaus. Mae wedi cydnabod y cyfleoedd posib sy'n deillio o adennill yr adnoddau a geir mewn gwastraff. Yn wir, mae gwastraff yn adnodd ynddo'i hun.

Nod PAS 402 yw darparu manyleb ar gyfer adrodd am berfformiad y gall cyrff rheoli adnoddau gwastraff ei mabwysiadu.

Mae'r fanyleb yn darparu fframwaith ar gyfer arddangos perfformiad yn erbyn meysydd cyflawni allweddol, yn cynnwys dargyfeirio o dirlenwi ac adennill deunyddiau, gan roi sicrwydd i ddarpar gwsmeriaid a chwsmeriaid presennol ynghylch y gwasanaeth maent yn ei gaffael. Nod yr adroddiad perfformiad sy'n deillio o hyn yw cyflwyno disgrifiad llawn a chywir sy'n briodol ar gyfer natur a graddfa'r sefydliad.

Mae'n bwysig ei fod yn cael ei ysgrifennu'n unol ag egwyddorion tryloywder, cyflawnder, perthnasedd, cywirdeb, cymaradwyedd, eglurder, prydlondeb a'r gallu i'w archwilio.

Mae'r sector adeiladu, dymchwel a chloddio yn cynhyrchu mwy o wastraff nag unrhyw sector arall, ond mae'n anodd diffinio gwastraff adeiladu, dymchwel a chloddio oherwydd bod llawer o'r cydrannau i'w canfod mewn gwastraff a gynhyrchir gan sectorau eraill. Felly, mewn ymgynghoriad â'r diwydiant gwastraff, penderfynwyd datblygu PAS 402 ar gyfer pob math o wastraff, sut bynnag y'i cynhyrchir.





© Y British Standards Institution 2013

Licensed copy: Tech Street, ISO Exchange - Michigan, Version correct as of 14/01/2015, (c) The British Standards Institution 2015

# 1 Cwmpas

Mae'r PAS yma'n pennu'r gofynion i gyrff rheoli adnoddau gwastraff o ran adrodd am berfformiad.

Mae'n gofyn bod corff rheoli adnoddau gwastraff yn adrodd am:

a) sut mae'n cyflawni gweithgareddau rheoli adnoddau gwastraff penodol (Cymal **3** i Cymal **10**); a'r

b) cyfraddau dargyfeirio o dirlenwi ac adennill deunyddiau mae'n eu cyflawni (Cymal **11**).

Mae'n berthnasol i gorff rheoli adnoddau gwastraff sy'n prosesu gwastraff diwydiannol, masnachol neu wastraff o'r cartref mewn gorsaf drosglwyddo, cyfleuster trin neu safle gwaredu.

Nid yw'n berthnasol i gorff rheoli adnoddau gwastraff sy'n gweithredu fel cludydd gwastraff neu frocer gwastraff yn unig.

***NODYN 1*** *Ceir canllawiau manwl ar sut mae cwblhau adroddiad rheoli adnoddau gwastraff sy'n cydymffurfio â PAS 402 mewn dogfen ategol a gyhoeddwyd gan CEW,* Rheoli Adnoddau Gwastraff – Canllawiau ar gyfer Adrodd am Berfformiad yn erbyn PAS 402 *[3].*

***NODYN 2*** *Ceir tablau cyfatebiaeth sy'n dangos y berthynas rhwng y cymalau o Cymal **3** i Cymal **11** a safonau'r systemau rheoli presennol yn Atodiad A.*

***NODYN 3*** *Mae'n ofynnol o dan y gyfraith i gyrff rheoli adnoddau gwastraff yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban gael eu hawdurdodi i gyflawni eu gweithgareddau.*



# 2 Termau a diffiniadau

At ddibenion y PAS yma, mae'r termau a'r diffiniadau canlynol yn gymwys.

## 2.1 cynllun busnes wrth gefn (BCP)

casgliad o ddogfennau gweithdrefn a gwybodaeth sy'n cael ei ddatblygu, ei grynhoi a'i gynnal yn barod i'w ddefnyddio yn sgîl unrhyw ddigwyddiad er mwyn galluogi corff i barhau i gyflawni ei weithgareddau hanfodol ar lefel dderbyniol a ddiffiniwyd ymlaen llaw
[BS 25999-1:2006, **2.6**]

## 2.2 cleient

corff sy'n cynhyrchu neu'n rheoli gwastraff

## 2.3 casglu

crynhoi gwastraff, gan gynnwys didoli cychwynnol a storio cychwynnol gwastraff, at ddibenion ei gludo i gyfleuster trin
[Cyfarwyddeb Cymunedau Ewrop 2008/98/EC ar wastraff [4], Erthygl 3 (10)]

## 2.4 gwastraff masnachol

gwastraff o unrhyw safle a ddefnyddir yn llwyr neu'n bennaf ar gyfer masnach, busnes, chwaraeon neu adloniant (heb gynnwys gwastraff diwydiannol ac o gartrefi)
[Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 [5], talfyriad o Adran 75(7)]

***NODYN*** *Ceir disgrifiad manwl o'r mathau o wastraff a ddosbarthir fel gwastraff masnachol yn Rheoliadau Gwastraff Rheoledig (Cymru a Lloegr) 2012 [6] a Rheoliadau Gwastraff Rheoledig (Newidiwyd) (Gogledd Iwerddon) 2003 [7].*

## 2.5 gwastraff rheoledig

gwastraff diwydiannol, masnachol ac o gartrefi
[Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 [5], Adran 75(4)]

***NODYN*** *Ceir disgrifiad manwl o'r mathau o wastraff a ddosbarthir fel gwastraff diwydiannol, masnachol ac o gartrefi yn Rheoliadau Gwastraff Rheoledig (Cymru a Lloegr) 2012 [6] a Rheoliadau Gwastraff Rheoledig (Newidiwyd)(Gogledd Iwerddon) 2003 [7].*

## 2.6 cam cywiro

gweithredu i ddileu achos o ddiffyg cydymffurfio a ganfuwyd
[BS EN ISO 14001:2004, **3.3**]

© Y British Standards Institution 2013